# Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**2013 dccc 3**

**RHAN 3**

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

**35 Cychwyn**

(1) Daw'r darpariaethau canlynol i rym ar y diwrnod y bydd y Ddeddf hon yn cael Cydsyniad Brenhinol—

(a) adran 30;

(b) yr adran hon;

(c) adran 36.

(2) Yn ddarostyngedig i is-adran (1), daw'r Ddeddf hon i rym yn unol â darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

(3) Caiff gorchymyn o dan is-adran (2)—

(a) gwneud darpariaeth ar gyfer pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol;

(b) cynnwys darpariaeth atodol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth arbed, darpariaeth gysylltiedig a darpariaeth arall sy'n ymwneud â chychwyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 35 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(1)(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Adran 35.